Ebrill 2011 Rhifyn 196



Heddiw cododd Crist yn fyw, Haleliwia!

Gair gan y Bugail

Un gweithgaredd fydd yn rhaid ei chyflawni yn ystod y dyddiau nesaf fydd llenwi'r ffurflen sensws. Nid wyf yn ddyn ffurflenni a hynny am reswm digon ymarferol, sef fy mod yn meddu ysgrifen fel traed brain. Ar ôl dweud hynny, fel un sy'n ymddiddori mewn hanes teuluol, y mae i sensws werth amhrisiadwy ac nid oes dim yn fy mhlesio yn fwy na threulio ychydig oriau yn chwilio am enwau a chartrefi. Bob hyn a hyn bydd rhywun yn dod ar draws gwybodaeth digon difyr, gwybodaeth fydd yn rhoi darlun o gyfnod ac o sefyllfa deuluol. Wrth ymchwilio i hanes teulu fy nhaid o ochr fy mam deuthum ar draws y gair 'vagrant', crwydryn oedd ar noson y cofrestru yn trigo yng nghartref un o'm cyndeidiau. Trempyn neu aelod o'r teulu? Pwy a ŵyr! Ac yna'r teitl 'son in law', digon dealladwy, - ond sut y gall bachgen pymtheg oed fod yn fab yng nghyfraith? Ac yna sylweddoli bod 'son in law' hefyd yn golygu llysfab. A dyna i chi sgandal, fy hen, hen nain wedi cael plentyn cyn priodi!! Gydag amser, fe aeth y ffurflenni hyn yn fwy cymhleth ac yn gyfrwng i gasglu cymaint o wybodaeth a phosibl. Beth sy'n rhyfedd yw bod ffurflenni ystadegau'r enwad wedi mynd yn llai tros y blynyddoedd a hynny oherwydd y gred bod llai o gwestiynau yn denu mwy o frwdfrydedd. Peth rhyfedd yw dewis a gorfodaeth! Y mae'n ofyn cyfreithiol i lenwi ffurflen sensws, opsiwn gwirfoddol yw cyflawni gofynion yr Eglwys!

Unwaith yn rhagor, bydd colofn yn ymddangos fydd yn galw arnom i ddatgan 'Beth yw eich crefydd?' ac ymhlith y dewis, ceir blwch yn datgan 'Dim crefydd'. Mewn llythyr a ymddangosodd yn y Cambrian News, pwysleisiodd gŵr sy'n ddyneiddiwr y pwysigrwydd o dicio'r blwch hwn a hynny mewn ysbryd gonestrwydd. Os nad ydych yn ymarfer y grefydd Gristnogol yna pa bwrpas yw cydnabod eich hunan

fel Cristion. Beth wna rhywun â sylw fel yna? Ar y naill law fe gytunwn, ond ar y llaw arall y mae rhywun yn poeni bod sylwadau o'r fath yn ddim byd mwy na llwyfan i fudiadau gan gynnwys unigolion. Ac onid gwir fyddai dweud bod cwestiwn o'r fath yn mynd tu hwnt i'r unigolyn a'i ddymuniad i ddal i gyhoeddi ei fod am arddel y ffydd Gristnogol ac yn gosod ffocws ar gymdeithas a holl batrwm bywyd? Fe gewch chi benderfynu.

Ymhen ychydig wythnosau fe fydd hi'n Basg. Gŵyl sydd yn dod â ni at graidd y ffydd Gristnogol, sef y ddealltwriaeth o natur a pherson yr Iesu, ei ddioddefaint a'i atgyfodiad gogoneddus. Gŵyl sydd yn galw arnom i ddatgan yn bersonol a chyhoeddus ein ffydd ynghŷd â neges sy'n sôn am fywyd ac addasrwydd y bywyd hwnnw ar gyfer dynoliaeth. Gŵyl ple y cawn gyfle newydd i dicio'r bocs ac i wneud hynny yng nghymdeithas ei bobl a thawelwch ein hystafelloedd. Ac o wneud, darganfod hyder a gobaith newydd mewn dyddiau anodd. Boed i'r Grawys a'r Pasg fod yn amser o fendithion a grasusau a gadewch i ni ddweud gyda'r emynydd :-
'Heddiw cododd Crist yn fyw,
Haleliwia!'

Bendith,
Eifion.

Diolch am yr Ysgol Sul, Hwyl Hwyr a Chlwb Clex!

Digon diflas oedd y teitl *Religion in Rural Wales: Four Restudies.* Tybed beth oedd gan yr Athro Steve Bruce o Brifysgol Aberdeen i'w ddweud wrthon ni am ddirywiad crefydd yma yng Nghymru? Tybiais mai prin y byddai angen darllen y tu hwnt i'r paragraff cyntaf; darlun o ddirywiad ac elfen gref o anobaith fyddai casgliadau'r erthygl. Rhaid oedd bwrw ati â'r darllen gan mai golygu'r erthygl ar gyfer Contemporary Wales oedd fy ngwaith.

Siom o'r ochr orau oedd darllen gwaith hynod o ddiddorol yn olrhain y seciwlareiddio a dirywiad yn ein capeli a'n heglwysi ers yr 1950au a'r 1960au. Y ffocws oedd ail-edrych ar bedair astudiaeth achos cymdeithasegol yn y Gymru wledig, sef ardaloedd Llanfrothen, Llanuwchllyn, Llanfihangel yng Ngwynfa a Llansanffraid Glyn Ceiriog. Mae'n honni hefyd bod y capel wedi colli ei statws wrth i ddwyieithrwydd cyhoeddus, addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a datganoli gwleidyddol ddod yn symbolau pwysicach o'n hunaniaeth fel cenedl. Bellach, mae'r dirywiad a'r seciwlareiddio yng Nghymru yn gynyddol debyg i rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol.

Y cwestiwn mawr i mi wrth ddarllen yr erthygl oedd beth oedd yn berthnasol i ni yma yng Nghapel y Morfa. Prin y byddai llawer o'r casgliadau yn synnu darllenwyr Perthyn. Yn fwyaf arwyddocaol i mi oedd mai'r nodwedd o ddirywiad dynnodd sylw Steve Bruce fwyaf oedd diflaniad yr Ysgol Sul. Hawliai bod hyn yn golygu dirywiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc â'u cyswllt â'r capel. Gwelai hyn fel newid ag iddo oblygiadau pellgyrhaeddol. Byddai diffyg pobl ifanc yn golygu bod dirywiad a seciwlareiddio yn digwydd yn gyflymach nag mewn ardaloedd eraill o'r Deyrnas Gyfunol.

Diolch byth, mae profiad a thystiolaeth y Morfa o gyswllt plant a phobl ifanc â'r capel yn wahanol iawn i'r darlun yma. Rhaid i ni lawenhau a diolch am ein Hysgol Sul lewyrchus. Ar ben hyn, mae'n wych o beth bod gweithgarwch y capel a'i gyswllt gyda phobl ifanc yn mynd y tu hwnt i hyn. Mae Clwb Hwyl Hwyr yn llwyddo i bontio a chyrraedd rhai na fyddai'n dod i Ysgol Sul. Prawf o bwysigrwydd y Morlan yw bod Clwb Clex i'r rhai yn eu harddegau, yn cynnig cyfleon cymdeithasu mewn lle sy'n dderbyniol. Mae adeilad capel yn aml yn rhywbeth sy'n ymddangos yn ddieithr ac amherthnasol a chrefydd yn codi llawer o gwestiynau. Mae gweithgarwch fel Clwb Clex yn bwysig ac yn cadw'r drws ar agor. Mae lle mawr i ddiolch i bawb sy'n creu ac yn galluogi'r gweithgarwch yma. Yr awgrym yn erthygl Steve Bruce yw bod angen gosod y gwaith hwn yn flaenoriaeth uwch, ei ddatblygu'n bellach a'i ddefnyddio fel un o brif arwyddion o iechyd ein capel ni.

Elin Royles Chwefror 2011

Cawl yn y Morlan (26 Chwefror 2011)

Er Cof

Mr. Douglas Jones

Brodor o ardal Cynghordy oedd Mr Douglas Jones ond oherwydd marwolaeth gynnar ei fam ac yntau ond yn saith oed, symudodd y teulu i Lanwrtyd ac oddi yno i Fyddfai. Fe'i magwyd gan ei chwaer a bu perthynas y ddau yn un agos iawn ar hyd y blynyddoedd. Yn bedair ar ddeg oed gadawodd yr ysgol gan ddechrau gweithio ar rai o'r ffermydd lleol a dyna fu ei hanes trwy gydol ei fywyd gwaith. Gŵr y tir fu Doug; fferm a gardd, anifeiliaid a phlanhigion a graen ar y cyfan. Ymhen amser cyfarfu Gwen a hynny ar drip i Gaerdydd. Y ddau yn trafaelio mewn gwahanol fysus ond yn dychwelyd ar yr un bws. Taith a arweiniodd i briodas yn y flwyddyn 1953 a phriodas a arweiniodd i deulu, Janet, Mair ac Anne. Ymgartrefwyd yn Llanwrtyd ond ymhen dwy flynedd dychwelodd y teulu i Gynghordy gan symud ymhen amser i Langadog. Ac yna yn y flwyddyn 1967 symudodd y teulu i Frodsham yn Swydd Caer. 'Roedd hyn yn dipyn o gam ond bu teulu a'r gymdeithas Gristnogol yn y capel Cymraeg yng Nghaer yn fendith ac yn gysur. Yn wir bu capel, yn oedfa a chymdeithas, yn bwysig i Doug ar hyd ei fywyd a'i ffyddlondeb distaw yn esiampl i unrhyw un a'i lais swynol yn cyfoethogi oedfa. Ymhen pum mlynedd dychwelodd y teulu i Gymru gyda Doug yn sicrhau gwaith ar fferm y Brifysgol yn Aberystwyth ac yna ymhen amser fel porthor yn Adeiladau Llandinam. Blynyddoedd hamdden fu'r blynyddoedd olaf; garddio a thrafaelio, gofalu am y Morfa, mwynhau cwmni teulu a threulio amser yng nghwmni ei annwyl Gwen. Yr oedd Doug yn annwyl gan bawb a phawb â gair da i ddweud amdano. Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwen, Janet, Mair ac Anne a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth. Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar y 5ed o Fawrth ac yn dilyn, ym mynwent Cefn Llan.

Newyddion

Llongyfarchiadau i Lewis a Patsy Jones, Brodawel, Coedlan Iorwerth ar enedigaeth Gwynfor Chan Pin, - brawd i Morgan ac Eluned ac ŵyr i Celia Jones.

Hefyd i Elin Royles a Rhodri ap Dyfrig 7, Heol Llanbadarn ar enedigaeth Pwyll, brawd i Lleucu Nest.

Llongyfarchiadau i'r plant a'r ieuenctid a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfodau'r Urdd mewn cystadlaethau llwyfan a chelf a chrefft – yn unigol ac fel aelodau o barti neu gôr.

Llongyfarchiadau i Mrs A. E. Jones, Annedd Wen, Heol Alun, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Erin Gruffydd, Cysgod-y-bryn, Rhydyfelin am ennill Tlws Lledrith Llew yn Eisteddfod Ysgol Penweddig ym mis Chwefror. Rhoddir y Tlws i'r disgybl â'r doniau creadigol gorau ym Mlwyddyn 7,8 a 9. Ym Mlwyddyn 7 mae Erin ac mae ei llwyddiant felly yn un arbennig.

Llongyfarchiadau i Siân Eirug, Llŷn, Coed y Buarth ar ei llwyddiant yn ennill cadair Eisteddfod Swyddffynnon am gyfansoddi emyn.

Anfonwn ein cofion at Glenys Davies, Haulfryn, Coedlan Iorwerth a Geraint Morgan, Tanyfron, Heol Min-y-Bryn a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwen Jones, 43, Stryd Cae-glas ar farwolaeth ei phriod, Douglas. Cydymdeimlwn hefyd â'r merched - Janet, Mair ac Ann, a'u teuluoedd.

Diolch: *Dymuna Gwen a'r teulu ddiolch i'r Gweinidog ac aelodau Capel y Morfa am y gefnogaeth, y gynhaliaeth a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth . Hefyd i'r rhai a fu'n gyfrifol am drefnu'r lluniaeth ar ôl yr angladd.*

Cydymdeimlwn ag Eirlys Parry, Llanfarian, ar farwolaeth ei mam-yng-nghyfraith, a mam-gu i Rhiannon ac Aranwen. Hefyd â William Griffith, Llain, Comins Coch ar farwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith, Y Parch Huw Llewelyn Jones. Hefyd a theulu'r Wenallt, Ffordd Ddewi ar farwolaeth taid Gwydion a Gethin yn Beriw, ger Y Trallwng.

Yr Ysgol Sul
Cynhelir Parti Coffi yn Festri'r Morfa ar nos Wener Ebrill 8fed o 6.30. tan 8 o'r gloch. ***Elw at Yr Ysgol Sul.***

Gwasanaethau'r Pasg 2011

Nos Iau Cablyd 21 Ebrill 2011: Oedfa undebol ddwyieithog yn Seion am 7 o'r gloch. Pregethir gan Y Parch. David Bracewell.

Bore Gwener y Groglith 22 Ebrill 2011: Gwasanaeth Cymraeg yng Nghapel y Morfa am 10 o'r gloch. Gorymdaith i ddechrau o Dŵr y Cloc am 11.15. i lawr hyd Siop y Pethe, lle cynhelir gwasanaeth byr.

Sul y Pasg 24 Ebrill 2011: Oedfa deuluol am 10 o'r gloch a chymun. Paned i ddilyn.
Gwasanaeth yn Ebeneser am 2.15 ac am 6 o'r gloch yng Nghapel y Morfa.

Bore Llun y Pasg 25 Ebrill 2011: Helfa wyau i ddechrau o'r Morlan am 10.30 y bore

Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

yn Seion, Aberystwyth ar ddydd Sul Mai 8fed, 2011

Bore am 10 o'r gloch: *Gwasanaeth Plant a Ieuenctid*

Hwyr am 5.30. o'r gloch: *Y Gymanfa Ganu*

Arweinydd: Dr. Rhidian Griffiths

Ymarfer at y Gymanfa Ganu

Ar nos Fercher am 7 o'r gloch

Mawrth 23 Bethel Aberystwyth
Mawrth 30 Bethel Tal-y-bont
Ebrill 6 Capel y Morfa
Ebrill 13 Horeb, Penrhyn-coch
Ebrill 20 Y Garn
Mai 4 Seion Aberystwyth

Gwasanaeth Gŵyl Ddewi y plant

Gweddi

Yng nghwmni Duw

Arglwydd, yn dy gwmni di
rwy'n diosg fy sgidiau – fy nghynlluniau;
yn datod fy watsh – fy amserlen;
yn tynnu fy sbectol – fy syniadau;
yn rhoi lawr fy mhìn ysgrifennu – fy ngwaith;
yn rhoi heibio fy allweddi – fy niogelwch;
er mwyn bod yn dawel gyda thi,
yr unig wir Dduw.

Ac wedi bod yn dy gwmni
rhoddaf fy sgidiau amdanaf – i rodio yn dy ffyrdd di;
gwisgaf fy watsh – i fyw yn dy amser di;
estynnaf am fy sbectol – i edrych ar dy fyd di;
codaf fy mhìn ysgrifennu – i gofnodi dy feddyliau di;
defnyddiaf fy allweddi – i agor dy ddrysau di.

Yn dy enw di,

AMEN

Allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN

Bydd Darlith Flynyddol Morlan yn digwydd am 7.30, nos Sadwrn, 7 Mai pan fydd yr Athro Barwnes Finlay o Landaf yn trafod *Dying Well Matters*. Mae Barwnes Finlay yn feddyg, Athro Meddygaeth Liniarol ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod annibynnol yn Nhŷ'r Arglwyddi. Cewch fanylion pellach eto, ond gwnewch nodyn o'r dyddiad yn eich dyddiaduron yn y cyfamser!

Am fwy o fanylion am y Farwnes Finlay gallwch ymweld â'r cyfeiriad isod ar y wê:
http://www.parliament.uk/biographies/ilora-finlay/26933

Perfformiad Cwmni Morlan o
***Byd yr Aderyn Bach*, sef cyflwyniad am fywyd**
Waldo Williams (21 Mawrth 2011)

Dathlu Gŵyl Ddewi ar nos Lun Chwefror 28ain

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn llwyddiannus eleni eto gan Gymdeithas y Morfa drwy gael noson Gawl. Cadeiriwyd y noson gan Mrs. Celia Jones a chyflwynwyd y cerddorion gan Mr. Hefin Jones. Y dynion oedd yn gweini'r cawl yn ôl yr arfer a chafwyd eitemau amrywiol o safon uchel gan gerddorion lleol - Sophie Rudge, Catherine Lewis, Thomas Mathias (ffidil), Anest Non Davies a Beca Williams.

Y gŵr gwadd oedd ein Bugail, Eifion Roberts. Yn ei anerchiad soniodd am *Gymeriadau* a chanolbwyntiodd ar ddau gymeriad y daeth ar eu traws pan oedd yn blentyn yng ngogledd Cymru ac yn ei ofalaeth gyntaf yng Nghroesoswallt. Dywedodd fod cymeriadau fel y rhain yn rhan annatod o'n gwead fel cenedl. Mae'n holl bwysig ein bod yn parchu eu doethineb a'u caredigrwydd. Clodforodd bersonoliaeth Gristnogol y ddau gymeriad dan sylw, gan nodi y dylai pob cymuned a chapel geisio magu a gwerthfawrogi cymeriadau rhinweddol.

Swper Gŵyl Ddewi yn y festri

Y Groglith

"Wrth fynd allan daethant ar draws dyn o Cyrene o'r enw Simon, a gorfodi hwnnw i gario ei groes ef." Mathew 27, adnod 32

Canodd yr emynydd am siwrnai olaf Iesu Grist ar y ddaear fel hyn, *Ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd, Heb neb o'th du. George Rees 1873-1950*
Llwybr unig iawn ydoedd yr un a arweiniodd o'r oruwch-ystafell i ardd Gethsemane, trwy'r llysoedd i wynebu'r prawf ac i Galfaria. Dioddefodd Iesu Grist yn enbyd iawn pan fflangellwyd Ef, ac y gorfodwyd Ef i sefyll i dderbyn sen y milwyr Rhufeinig pan osodwyd coron ddrain am ei ben a gwisg borffor amdano. Cyfarchwyd Ef yn wawdlyd ganddynt â'r geiriau "Henffych well, brenin yr Iddewon"

Yr oedd yn rhaid i Iesu Grist gario'r groes hyd nes cyrraedd Calfaria, bryn y tu allan i'r ddinas, ond fe aeth cario'r groes drom yn dasg anodd iawn iddo. Pererin Iddewig ar daith i Jerwsalem oedd Simon o Cyrene. Gorchmynnwyd i'r Simon hwn gario croes Iesu Grist a phrofodd Simon ei hun yn gyfaill mawr i Iesu Grist yn oriau ei ing mawr. Gwir ei

fod wedi ei orfodi i wneud hyn, ond defnyddiodd gyfle'r dasg anodd i leddfu ychydig ar loes Mab y dyn. Yna cyrraedd Calfaria, a'r Iesu yn cael ei groeshoelio, rhwng dau leidr. Rhoddwyd hoelion dur yn ei draed a'i ddwylaw, a'i weddi dros ei elynion "O Dad, maddau iddynt…"

Ar Ŵyl y Groglith, yr ydym yn cofio'n ddiolchgar am yr Un sydd drwy ei ddioddefaint yn abl i'n gwaredu oddi wrth ein pechodau. Cyflawnwyd o'r diwedd eiriau'r proffwyd am y gwas ffyddlon: "A thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni."

Sylweddolwn fod Iesu Grist wedi marw drosom, ac mai ei eiddo Ef ydym.

Dy eiddo ŷm o Iesu da,
Gan it ein prynu'n ddrud,
A byw a marw it a wna
Y Cristion yn y byd."

Y Pasg

*Y P*asg yw gŵyl fawr yr Eglwys i gofio buddugoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist, buddugoliaeth yr Atgyfodiad. Gŵyl i seinio buddugoliaeth a datgan ein llawenydd oherwydd bod "yr Iesu eto'n fyw" ydyw Gŵyl y Pasg.

"Fe dorrodd y wawr; sancteiddier y dydd;
Fe ddrylliwyd yr iau: daeth y cadarn yn rhydd;
Fe gododd y Ceidwad, boed moliant i Dduw,
Fe goncrwyd marwolaeth, mae'r Iesu yn fyw."

Nantlais

Gwawriodd y trydydd dydd a'i neges nerthol ar y fintai fechan a ganlynodd Iesu Grist. Profwyd gwirionedd yr Atgyfodiad gan y gwragedd "a ddaethant at y bedd, gan ddwyn y peraroglau a baratoesant - y gymwynas olaf i'r marw. Mae'r disgyblion yn eu hofn yn cyfarfod y tu ôl i ddrysau caeedig, ac eraill yn dychwelyd i'w cartref wedi gobeithio mai Hwn a waredai Israel, ac wedi eu siomi ynddo.

Dyna'r darlun a geir yn yr Efengylau. Nid dewis credu mae tystion yr Atgyfodiad ond gorfod credu. Ni allai hyd yn oed Tomos, yr anghredadun, gredu'r Atgyfodiad ac yntau yn edrych ar y Crist byw. Yn yr Atgyfodiad yr ydym wyneb yn wyneb â dirgelwch mwyaf hanes - a ffaith bwysicaf hanes. Os ydym i gredu unrhyw ddigwyddiad mewn hanes ar sail tystiolaeth y gorffennol, rhaid derbyn y dystiolaeth i'r Atgyfodiad, neu fe fyddwn yn gwadu pob sail i hanes. "Mair Magdalen a ddaeth ac a fynegodd i'r disgyblion weled ohoni'r Arglwydd" Ni allodd gadw'r gorfoledd a'i llawenydd iddi'i hun.

Na, na, nid marw fy Arglwydd a'm Duw,
Cyfododd yr Iesu; mae eto yn fyw.
A ninnau a'i gwelsom a thystion ynom ni
Mai gobaith yr oesoedd yw Croes Calfarî.
Mi welais y man y gorweddodd Ef,
A mwyach, yn eofn mi godaf fy llef
I dystio am Iesu, Iachawdwr y byd,
Os f'Arglwydd a'i myn, drwy'r ddaear i gyd.
Cans gwelais ogoniant y Tad yn ei wedd –
Tywysog y Bywyd, Gorchfygwr y bedd."

I D Hooson

Nid oes gennym ninnau yr hawl i fod yn dawel ar Sul y Pasg.

Braf yw gweld y gwanwyn wedi cyrraedd a'r tywydd oer yn gwneud ei orau i gilio am eleni, yr ŵyn bach yn prancio, yr adar wrth eu bodd yn canu a'r blodau amryliw yn codi calon pawb. Diolchwn oll i Dduw.

Llongyfarchiadau calonnog iawn i ddau aelod hynaf Ebeneser, sef Lilian Jenkins fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 93 oed ym mis Ebrill a Jeanie Jones a ddathlodd ei phen-

blwydd yn 91 oed ym mis Mawrth. Pob bendith i'r ddwy ohonoch.

'Rydym yn gweld chwithdod mawr heb gwmni Megan, sydd yn dal yn hynod o siriol yn ei chadair gyfforddus. Mae ein dirprwy gyhoeddwr, Margaret Morgan, wedi methu bod gyda ni ar brynhawn Sul ers sawl wythnos erbyn hyn, ond mae'n dda cael dweud ei bod yn araf wella, Ar hyn o bryd mae'n rhaid gorfod dibynnu ar Rhiannon, yr ail 'sub'. Da dweud hefyd bod Glenys Davies wedi cael triniaeth lwyddiannus ar ei llygad yn ddiweddar yn Ysbyty Bronglais ond dal yn boenus mae Catherine Jones ac mae Lilian Jenkins, yn medru cerdded yn reit dda o gwmpas y tŷ. Anfonwn ein cofion caredig at Bob Davies yng Nghwmcynfelin, Clariss Pyle yn Hafan y Waun a Laura Rumsey-Williams yn Cysgod y Coed ac at bawb arall sydd wedi bod mewn unrhyw anhwylder iechyd. Pob dymuniad da i chi gyd gan obeithio y cewch dderbyn o fendithion y Pasg.

Newidiadau
yn nhref Aberystwyth

Ar gais Perthyn, ysgrifennodd Carys Davies eu hargraffiadau o Aberystwyth ar ôl dychwelyd i'r ardal yn 2008, wedi treulio tair blynedd ar ddeg yn Rhydychen.

Yn dechrau'r nawdegau mynychais gyfarfodydd cyhoeddus i brotestio yn erbyn y cynllun i adeiladu ar dir fferm Parc-y-Llyn gan y gwelwn y caeau yno dan ddŵr yn gyson yn y gaeaf. Erbyn hyn mae yno siopau mawr a llawer o dai. Codwyd tri adeilad sylweddol- Swyddfeydd y Llywodraeth, Cyngor y Dref a'r Heddlu. Rwy'n mynychu'r siopau fel pawb arall- ond rwy'n dal i bryderi am ddyfodol y rhan yma o'r dref. Amser a ddengys beth all ddigwydd efo'r hinsawdd yn newid a'r darogan am fwy o law trwm yn y dyfodol.

Mae Ysbyty Bronglais yn newid ei gwedd yn raddol a bydd y gwaith yn parhau am fisoedd eto.

Derbynia'r Brifysgol mwy o fyfyrwyr yn flynyddol a'r ddarpariaeth ar eu cyfer i'w gweld ar y campws a'r neuaddau byw. Un o adeiladau'r Brifysgol yw Canolfan y Celfyddydau - un o'r mannau mwyaf poblogaidd i bob oed gan ei bod yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, fel cyngherddau, dramâu a ffilmiau. Mae'r adeilad wedi ei newid a'i ymestyn sawl gwaith ers pan y'i codwyd gyntaf.

Rwy'n mwynhau'r darlithoedd, y sgyrsiau a'r cyrsiau undydd a gynhelir yn y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r Drwm yn gaffaeliad pwysig sydd y denu ysgolheigion, ymchwilwyr brwd yn ogystal â nifer eangach.

Adnewyddwyd pwll nofio'r dref fel ei fod yn fwy pleserus i'w ddefnyddio. Drws nesaf iddo mae adeilad newydd sbon

Ysgol Penweddig. Codwyd tai a fflatiau lle safai cynt yn Ffordd Ddewi. Codwyd mwy o dai newydd ym Mhenrhyncoch a'r Waun, gan gynnwys Cartref Hafan y Waun, - ychwanegiad gwerthfawr i'r ardal.

Gwelaf olwg llwm yng nghanol y dref mewn rhai mannau ac mae'n amlwg fod rhai busnesau bach yn cael bywyd yn anodd. Mae'r nifer y ceir a lorïau mawr wedi cynyddu a'r lorïau yn ymlwybro drwy'r strydoedd cul i geisio diwallu ein hangen am fwyd a phethau eraill. Mae'r dirwasgiad yn ffrwyno'r gwario mawr ar hyn o bryd, ond gwelaf fod llawer o welliannau wedi eu cyflawni mewn ychydig dros ddegawd.

Pan symudasom oddi yma nid oedd Canolfan y Morlan wedi ei hagor ond roedd yr ymgyrch i godi arian ar ei chyfer yn prysuro. Mae bellach yn Ganolfan Ffydd a Diwylliant fywiog ac o fudd mawr i'r dref. Teimlaf yn ffodus i gael byw yma a chael bod yn aelod o Gapel y Morfa.

Carys Davies
Mawrth 2011

Miss Beti Griffiths yn sôn am wahanol fathau o groesau

DYDDIADUR EBRILL 2011

Capel y Morfa ac Ebeneser

GWASANAETHAU'R SUL

10.00 a 6.00 yn y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

3 Y Bugail (Cymun yn yr hwyr).
10 I'w drefnu.
17 Y Bugail.
24 Y Bugail.

Ysgolion Sul
Plant: bore am 10.00

Hwyl Hwyr
Prynhawn Llun, 3.45-5.00

Clwb Clex i Ieuenctid
Nos Wener, 7.00-9.00, yn y Morlan

Cyfarfodydd wythnosol
Cylch gweddi a choffi: bore Mawrth am 10.30 am.
Nos Iau am 7.00 p.m. Cyfarfodydd y Grawys

Cinio Bara Chaws
4 Ebrill – Bethel, Stryd y Popty

Golygyddion y rhifyn hwn yw Laurie Wright a Hywel Lloyd. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Mai o Perthyn os gwelwch yn dda at Sian Eleri (sianeleri@urdd.org) neu Gwenan Creunant (gwc@aber. ac.uk) erbyn dydd Gwener, 15 Ebrill.

SWYDDOGAETHAU EBRILL 2011

Blaenor y Mis Mr Merfyn Davies

Porthorion Deian Creunant, Dai Alun Jones
Rhys Huws, Trish Huws.
Ebeneser Mrs Siân Powell a Mrs Hilda Williams.

Blodau'r Cysegr – Y Morfa
3 Hefin Jones
10 Sera Llywelyn
17 Dilys Lloyd
24 Sarah Down

Blodau Ebeneser
3 Mrs Lilian Jenkins
10 Mrs Siân Powell
17 Mrs Siân Powell
24 Miss Llinos M. Hughes

Cynorthwywyr Llestri Cymun
3 Jean Davies, Glenys James,
Mair Hughes, Mary Jones Morris

Cynorthwywyr Ariannol
3 Mr Rhys Jones a Mrs Mary Fitter.
10 Mrs Eira Williams a Mr Hywel Lloyd.
17 Mrs Hefina Davies-Wright a Mr Wynford Evans.
24 Mrs Glenys James a Mr Elvey Macdonald.

Tregerddan
25 Dan ofal Eleri Davies.